Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Adroddiad Etifeddiaeth / Legacy Report
CWLC LEG08
Ymateb gan Dathlu'r Gymraeg / Response from Dathlu'r Gymraeg

Dathlu'r Gymraeg

# Ymateb Mudiadau Dathlu'r Gymraeg i

# Ymchwiliad gwaddol
gan
Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru

Chwefror 2021

Elin Maher
Cadeirydd Mudiadau Dathlu'r Gymraeg

Swyddfa@dathlu.cymru

Diolch i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ac i'r Cadeirydd dros dro am y cyfle hwn i gyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor wrth i'r Senedd ystyried trefniadau'r pedair blynedd diwethaf ac edrych ymlaen at y nesaf.

Grŵp ymbarél yw Mudiadau Dathlu'r Gymraeg sydd am ddathlu llwyddiant y Gymraeg gan sicrhau:

- Bod pawb yng Nghymru yn cael defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau.
- Diogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
- Neilltuo adnoddau digonol i sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg
- Gweithredu Mesur y Gymraeg (2010) gan weithredu safonau ar gyrff sy'n dod o dan gwmpawd y mesur yn effeithiol
- Gwireddu Strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr
- Gosod a gwireddu targedau uchelgeisiol ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan sicrhau fod dysgwyr ym mhob cyfnod yn cael mynediad hwylus at addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o Gymru.
- Sicrhau dyfodol llewyrchus ac annibynnol i S4C a darlledu yng Nghymru

Hyderwn y bydd yr isod o gymorth i'r pwyllgor wrth ystyried gwaith y gorffennol a chyfleoedd i bwyllgor y dyfodol.

- Y mae nifer o'r mudiadau sydd yn aelod o'n mudiad wedi cael cyfleoedd i gyfrannu at waith y Pwyllgor, ond nid pawb. Mynegwn felly ein hawydd fel mudiad ymbarél i ehangu a datblygu ein cysylltiad â'r Pwyllgor gyda'n holl aelodau. Byddwn yn falch iawn o gael manteisio ar bob cyfle posib, nid yn unig i gyfrannu at ei drafodaethau, ond hefyd i awgrymu a chychwyn trafodaethau o'r newydd, yn enwedig ar feysydd sy'n ymwneud ag egwyddorion a syniadau cynllunio ieithyddol, sef y ddisgyblaeth a gredwn sy'n allweddol i sicrhau twf y Gymraeg.
- Wrth i waith Prosiect 2050 ddatblygu dros y Senedd nesaf, credwn fod gan y Pwyllgor rôl allweddol o safbwynt craffu datblygiad y gwaith a chadw golwg fanwl ar bob agwedd o'r agenda. Os nad yw'n bodoli'n barod, yna'n sicr dylid sefydlu cyswllt agos rhwng amserlenni ac agendâu'r Prosiect a'r Pwyllgor er mwyn sicrhau'r gorau o'r trefniant hwn.
- Yn yr un modd, rhaid cydnabod bod y Gymraeg yn destun sy'n berthnasol i holl waith y Senedd, ac unwaith eto, byddwn yn awgrymu bod y Pwyllgor yn cadw trosolwg cynhwysfawr o weithgaredd holl adrannau'r Llywodraeth. Byddai hyn yn sicrhau na chollir cyfle i graffu'r cyswllt allweddol rhwng y Gymraeg a'r economi, er enghraifft, neu'r Gymraeg a datblygu neu anghenion tai ayb. Credwn fod angen ymateb llawer mwy holistaidd i anghenion a pholisïau'r Gymraeg, ac yn sicr, byddai'n werthfawr petai'r Pwyllgor yn gallu craffu ymrwymiad a chyfraniad holl adrannau'r Llywodraeth tuag at waith Prosiect 2050.
- Yn ogystal â chryfhau'r cysylltiad gyda Phrosiect 2050 a chraffu'r cyfraniad gwahanol adrannau i agenda'r iaith, bydd angen sicrhau digon o hyblygrwydd

i'r Pwyllgor hefyd allu ymateb i unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas â'r Gymraeg – yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

- Os na wneir hynny'n barod, yna byddai'n werthfawr i'r Pwyllgor adrodd ar ei argymhellion mewn perthynas â'r Gymraeg: faint sy'n cael eu gweithredu a pha gamau penodol a gymerir.
- Dros gyfnod y pandemig, gwerthfawrogwn y cyfleoedd a roddwyd i ymateb yn electroneg a/neu'n rhithwir i waith y Pwyllgor. Hyd yn oed pan fydd hi'n bosib cwrdd wyneb-i-wyneb drachefn, byddwn yn parhau i werthfawrogi'r dewis o gyfathrebu'n rhithwir.
- Dymunwn i'r Pwyllgor ystyried sesiynau sy'n cydweithio gyda phwyllgorau seneddol eraill gan graffu ar waith pwyllgorau eraill ynghylch y Gymraeg. Yn aml dros y flwyddyn ddiwethaf daeth sectorau ynghyd i drafod Bil y Cwricwlwm er enghraifft, gyda'r Gymraeg yn cael lle prin iawn yn ystod sesiynau'r sectorau gan fod y pwyslais wedi bod ar y sector yn hytrach na'r Gymraeg o fewn y sector.
- Ar ben hynny, gweithreda'r Pwyllgor yn aml mewn modd sefydliadol wrth ymgynghori ag eraill, er enghraifft, ceir pwyslais digonol ar ymgynghori gyda S4C y BBC ac ITV tra nad oes digon o bwyslais ar ymgynghori gyda phobl gyffredin. Credwn y dylai'r Pwyllgor gynyddu'r cyfleoedd sydd gan bobl gyffredin i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor a'u cynnwys yn rhan ganolog o'u hymgynghoriadau.
- Dymunwn nodi pwysigrwydd ehangder gwaith y pwyllgor hwn a'i arwyddocâd wrth sicrhau gwlad gwirioneddol ddwyieithog. Mae angen ymestyn allan yn eang i'n cymunedau fel bod cyfle gwirioneddol i dderbyn ymateb gan bobl o bob math, o bob maes ac o bob cefndir. Mae'r dechnoleg wedi dangos bod modd i ni erbyn hyn gyflwyno tystiolaeth drwy fideo wedi ei rhag recordio neu'n fyw ac wedi agor drysau Newydd o ran ymgysylltu gyda grwpiau newydd. Mae ystod oedran eang hefyd yn bwysig iawn ac angen bod yn rhan allweddol o gyfrannwyr y pwyllgor nesaf. Byddai derbyn ymateb cyson gan Senedd Ieuenctid Cymru, Bwrdd Syr Ifanc neu grwpiau ieuenctid eraill yn dibynnu ar oed a maes, yn gyfle gwych i ymestyn yr ymgysylltu.
- Dymunwn ychwanegu pwysigrwydd cynnwys addysg (cyn-statudol, statudol, ôl-16 a gydol oes) at y meysydd o bwys ble y gallai'r Pwyllgor roi sylw i'r 'dimensiwn Cymraeg', yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth newydd ac arfaethedig.
- Mae cyfnod y pandemig wedi amlygu heriau a chyfleoedd ynghylch y Gymraeg. Mae'r cyfnod wedi codi cwestiynau am bresenoldeb y Gymraeg ar draws cymunedau Cymru a'r gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn nifer o sectorau. Mae hyn wedi profi gwydnwch y Gymraeg mewn rhai ardaloedd ond wedi amlygu meysydd i'w datblygu mewn eraill. Bydd cyfnod cychwynnol y pwyllgor nesaf yn gyfle i edrych yn fanylach ar sut dylid mynd i'r afael â'r heriau hyn o ddifrif a sut i gysoni'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws cymunedau Cymru a meysydd gwaith Senedd a Llywodraeth Cymru nesaf.
- Mae'n bwysig fod gan y Senedd bwyllgor sy'n rhoi lle amlwg i graffu ar y Gymraeg o ran gwaith y Gweinidog â chyfrifoldeb am yr iaith a chynnydd y strategaeth a Phrosiect Cymraeg 2050. Fe ddylai fod gan y Pwyllgor hefyd gylch gorchwyl ehangach i graffu ar y Gymraeg mewn meysydd eraill hefyd a dylai fod ganddo'r gallu i alw Gweinidogion eraill i gyfrif yn achos materion yn ymwneud â'r Gymraeg ar draws y meysydd hyn.

Diolchwn am waith y pwyllgor dros y Senedd diwethaf ac edrychwn ymlaen at gyfrannu at waith y pwyllgor nesaf.